

Rydych wedi rhoi gwybod am drosedd...

felly beth sy'n digwydd nesaf?

Mae'r daflen hon yn dweud wrthyhych beth y gallwch ei ddisgwyl gan y System Cyfiawnder Troseddol, ac mae'n egluro:

- beth sy'n digwydd nawr
- sut i gael cyngor a chymorth
- eich hawliau
- ble y gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth.

Bydd yr heddlu yn trosglwyddo gwybodaeth amdanoch i Cymorth i Ddiodefwywr fel y gallant gynnig help a chymorth i chi - heblaw eich bod yn gofyn i'r heddlu beidio â gwneud hynny.

A photograph showing two police officers in high-visibility yellow jackets and dark blue hats with a badge, talking to a person whose back is to the camera. The person is wearing a dark green jacket and a grey hat. The background is blurred, showing other people and what appears to be an outdoor event.

I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw beth yn y daflen hon, ewch i www.cjsonline.gov.uk

Eich nodiadau a'ch manylion cyswllt

Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi nodi manylion unrhyw bobl y dewch i gysylltiad â hwy pan ymchwilir i'ch achos. Drwy wneud hyn, bydd gennych yr holl fanylion cyswllt a gwybodaeth bwysig mewn un man.

Cyswllt cychwynnol â'r heddlu

Enw'r swyddog:

Rhif ffôn gorsaf yr heddlu:

Swyddog sy'n delio â'r achos (os yw'n wahanol i'r uchod)

Enw'r swyddog:

Rhif ffôn y swyddog:

Manylion y drosedd

Rhif cyfeirnod y drosedd:

Rhif ffôn y ddesg droseddau:

Nodiadau eraill

Y System Cyfiawnder

Troseddol yw un o'r gwasanaethau cyhoeddus mwyaf yn y wlad. Mae'n cynnwys asiantaethau fel yr heddlu, Gwasanaeth Eryl y Goron, llysoedd, carchardai a'r gwasanaeth prawf, i gyd yn cydweithio i sicrhau cyfiawnder troseddol yng Nghymru a Lloegr.

Mae'n ddrwg gennym glywed eich bod wedi dioddef trosedd. Deallwn y gallai hyn fod wedi bod yn brofiad trallodus, neu efallai eich bod yn teimlo'n flin neu'n rhwystredig.

Gwerthfawrogwn eich bod wedi rhoi gwybod i ni am y digwyddiad. Gall y penderfyniad i gysylltu â'r heddlu achosi straen, ac efallai eich bod yn poeni neu'n pryderu am ei oblygiadau. Os hoffech gael cyngor neu gymorth, mae llawer o bobl a dill helpu.

Mae'r daflen hon yn egluro beth fydd yn digwydd nawr a'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gan y **System Cyfiawnder Troseddol**. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am sefydliadau y gallwch gysylltu â hwy am gyngor am ddim - boed hynny'n wybodaeth ymarferol neu'n gymorth emosïynol.

Beth sy'n digwydd nawr?

Dyma beth y gallwch ei wneud i helpu'r heddlu

Pan fyddwch yn rhoi gwybod am drosedd, mae ychydig o bethau y gallwch eu gwneud i helpu gyda'r ymchwiliad:

- Rhowch wybod i'r heddlu os byddwch yn cofio mwy am y drosedd ar ôl i chi wneud eich datganiad.
- Rhowch wybod i'r heddlu yn syth os byddwch yn newid eich manylion cyswilt - fel eich rhif ffôn neu gyfeiriad eich cartref.
- Rhowch wybod i'r heddlu os oedd y drosedd yn cynnwys camdriniaeth, neu os credwch ei bod yn gysylltiedig â hill, rhywioldeb, crefydd, anabledd neu hunaniaeth o ran rhywedd.
- Rhowch wybod i'r heddlu os oes gennych anghenion symudedd, cyfathrebu neu grefyddol arbennig.

Beth fydd yr heddlu yn ei wneud

Pan fyddwch wedi rhoi gwybod am drosedd, bydd yr heddlu yn dweud wrthyhych beth fydd yn digwydd nesaf.

- Byddant yn dweud wrthyhych p'un a ymchwilir i'r drosedd ymhellach ai peidio. Os daw'r ymchwiliad i ben, byddant yn rhoi'r rhesymau am hyn i chi.
- Os ymchwilir ymhellach i'ch achos, bydd yr heddlu yn rhoi gwybodaeth i chi am ei gynnydd. Mae gennych yr hawl i gael y wybodaeth ddiweddaraf am eich achos, felly cofiwch ofyn i'ch cyswilt heddlu amdani.

Eich diogelu rhag aflonyddu

Os aflonyddir amoch neu os cewch eich bygwth mewn unrhyw ffordd yn ystod ymchwiliad neu dreial, dylech gysylltu â'r heddlu yn syth. Mae'n drosedd bygylu unrhyw un sy'n helpu'r heddlu mewn ymchwiliad.

Os yw'r troseddwr wedi'i ddal, ei roi ar remand yn y ddalfa, ei ryddhau ar fechniaeth neu ei gollfarnu, gall y llys troseddol wneud gorchymyn atal i'w rwystro rhag dod yn agos atoch, eich bygwth neu'ch bygylu eto.



Mae **Gwasanaeth Erlyn y Goron** yn gyfrifol am erlyn achosion troseddol yr ymchwiliwyd iddynt gan yr heddlu.

Mae'r **Uned Gofal Tystion** yn gofalu am ddiodefwyr a thystion o'r adeg pan gaiff rhywun ei gyhuddo o'r drosedd hyd at ddiwedd yr achos. Maent yn hysbysu tystion am gynnydd eu hachos, yn gwneud unrhyw drefniadau ar gyfer tystion sy'n mynd i'r llys, ac yn cynnig cymorth.

Os bydd eich achos yn mynd i'r llys

Os caiff rhywun ei arestio a'i gyhuddo, bydd **Gwasanaeth Erlyn y Goron** (CPS) yn penderfynu a ddylid erlyn a mynd â'ch achos i'r llys.

Os bydd eich achos yn mynd i'r llys, bydd yr **Uned Gofal Tystion** yn cysylltu â chi cyn y treial. Yr Uned fydd eich unig bwynt cyswllt o hynny ymlaen, a bydd yn eich hysbysu a'ch cynorthwyo yn y llys.

Efallai y bydd angen cymorth wrth roi tystiolaeth ar rai tystion sy'n teimlo'n ofnus neu'n agored i niwed, am eu bod yn ifanc neu'n anabl er enghraifft. Yn yr achosion hyn, efallai y bydd gan dystion hawl i 'fesurau arbennig'. Gallai hyn gynnwys gosod sgrîn rhwng y safle tystio a'r diffynnydd neu roi tystiolaeth gyda chymorth arbenigwr.

Dod i wybod am broses y llys

I gael rhagor o wybodaeth am:

- ▶ Sut y gwneir y penderfyniad i erlyn, ewch i'r adran 'Eich CPS' yn www.cps.gov.uk

Neu archebwch y daflen *Y penderfyniad i erlyn* drwy ffonio **020 7796 8442**

- ▶ Beth sy'n digwydd yn y llys, gwylwch y fideo 'Going to court' ar-lein yn www.moj.coionline.tv/videos/goingtocourtvideo

Neu ewch i www.cjsonline.gov.uk/victim am ragor o wybodaeth gyffredinol



Sut i gael cyngor a chymorth

Pan fyddwch wedi dioddef trosedd, efallai y bydd sawl rheswm pam yr hoffech gael cyngor neu gymorth. Waeth pa mor fawr neu fach yw'ch cwestiynau neu'ch pryderon, mae sefydliadau a all helpu.

Sefydliadau cyngor a chymorth

Ffôn:

0845 30 30 900

Mae'r llinellau ar agor rhwng 9am a 9pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 9am a 7pm ar ddydd Sadwrn a dydd Sul a rhwng 9am a 5pm ar Wyliau'r Banc.

Neu:

0207 268 0200

Ar gyfer materion diogelu data

Gwefan:

www.victimsupport.org.uk

Ffôn:

Ewch i'r wefan i gael rhif ffôn eich canolfan leol

Gwefan:

www.citizensadvice.org.uk

Ffôn:

0800 771 234

Gwefan:

www.ukonlinecentres.com

Cymorth i Ddiodefwyr

Os ydych wedi dioddef trosedd, efallai y bydd angen cymorth a gwybodaeth ymarferol arnoch am, er enghraifft, ailosod neu atgyweirio eiddo (fel newid cloeon) neu hawlio iawndal.

Mae Cymorth i Ddiodefwyr yn elusen genedlaethol annibynnol y gall ei gwirfoddolwyr hyfforddedig eich helpu. Mae ei gwasanaethau am ddim, yn gyfrinachol ac ar gael i bawb, waeth pryd y digwyddodd y drosedd.

Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi siarad ag un o'i gwirfoddolwyr os bu'r profiad yn drallodus. Os oes angen cyngor neu gymorth mwy arbenigol arnoch, bydd hefyd yn gallu eich cyfeirio at sefydliad sy'n fwy addas.

Cyngor ar Bopeth

Os ydych wedi dioddef trosedd, efallai y byddwch yn wynebu problemau ariannol neu gallai fod angen cyngor ariannol arnoch o ganlyniad i hynny. Efallai y bydd gennych gwestiynau am faterion cyfreithiol neu broblemau ymarferol eraill hefyd.

Gall y rhwydwaith cenedlaethol o Ganolfannau Cyngor ar Bopeth eich helpu i ddatrys y rhain drwy roi gwybodaeth a chynghor am ddim i chi.

UK Online

Mae llawer o wybodaeth a chynghor ymarferol ar gael ar-lein os ydych wedi dioddef trosedd. Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngwyd, gall UK Online eich helpu i ddod o hyd i fynediad i'r rhyngwyd am ddim neu gost isel yn un o'u canolfannau lleol. Mae ganddynt dros 6,000 o ganolfannau - ffonwch hwy am ddim i ganfod yr un sydd agosaf atoch.

Eich hawliau

Cod Ymarfer i Ddioddefwyr

Mae'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau yn pennu pa wasanaethau y gallwch eu disgwyl gan yr asiantaethau cyfiawnder troseddol - fel yr heddlu a'r llysoedd - pan fyddwch wedi rhoi gwybod am drosedd. Mae'r Cod yn sicrhau, er enghraifft, y cewch y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd eich achos. Os ydych yn ddioddefwr sy'n agored i niwed neu'n ofnus, mae hefyd yn sicrhau y cewch ystyriaeth arbennig.

Os nad ydych yn fodlon ar y gwasanaeth a gewch, gallwch wneud cwyn o dan y Cod.

- ▶ I gael rhagor o wybodaeth am y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau neu i wneud cwyn, ewch i www.cjsonline.gov.uk/victim a chliciwch ar 'Your rights' yn y panel ar y dde.

Sut y gallwch wneud cais am iawndal

Anaf, colled neu ddifrod

Os ydych wedi dioddef anaf, colled neu ddifrod o ganlyniad i'r drosedd, gallai fod gennych hawl i iawndal os caiff rhywun ei ddal a'i gyhuddo. Bydd angen i chi roi gwybod i'r heddlu os ydych am hawlio iawndal, er mwyn i'r CPS allu gwneud cais am orchymyn iawndal. Bydd angen i chi hefyd roi manylion cywir i'r heddlu am y golled, yr anaf neu'r difrod, ac (os yw'n bosibl) unrhyw dystiolaeth, fel derbynebau.

Anafiadau a achoswyd gan drosedd dreisgar

Os cawsoch eich anafu mewn trosedd dreisgar, gallwch wneud cais am iawndal drwy'r Cynllun Iawndal am Anafiadau Troseddol. I gael rhagor o wybodaeth am y cynllun hwn, ewch i wefan yr Awdurdod Iawndal am Anafiadau Troseddol.

Difrod a achoswyd gan yrrwr heb yswiriant

Os oedd y troseddwr yn gyrru cerbyd heb yswiriant, efallai y gallwch hawlio iawndal drwy'r Biwro Yswirwyr Modurol.

Ffôn:
0800 358 3601

Gwefan:
www.cica.gov.uk

Ffôn:
01908 830 001

Gwefan:
www.mib.org.uk

Ble i gael rhagor o wybodaeth

Unrhyw gwestiynau?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y wybodaeth yn y daflen hon neu os oes angen help arnoch i gael y cyngor a'r cymorth sydd ar gael i chi, cysylltwch â'ch heddlu lleol. Gallwch gael eu manylion cyswllt yn eich llyfr ffôn.

Gallwch hefyd gael rhagor o wybodaeth am y broses cyfiawnder troseddol a'r cymorth sydd ar gael yn adran y dioddefwr yn www.cjsonline.gov.uk

Braille ac ieithoedd eraill

Mae'r daflen hon hefyd ar gael mewn Braille - yn ogystal ag mewn nifer o ieithoedd gwahanol.

- ▶ Os hoffech gael un o'r fersiynau eraill hyn, gofynnwch i'ch heddlu lleol. Gallwch gael eu manylion cyswllt yn eich llyfr ffôn.

Helpu i atal troseddau

Mae lleihau'r ofn a'r risg o droseddau yn her y dylai'r heddlu a'r gymuned fynd i'r afael â hi gyda'i gilydd. Ond mae sawl ffordd y gallwch leihau'r risg o ddod yn ddioddefwr troseddau.

Mae'r daflen *Byddwch saff, byddwch ddiogel: Eich canllaw ymarferol i atal trosedd* yn cynnig awgrymiadau ar sut y gallwch ddiogelu eich teulu, eich cartref a'ch eiddo.

- ▶ I weld y daflen ar-lein, ewch i www.crimereduction.homeoffice.gov.uk, neu gofynnwch i'ch heddlu lleol am gopi. Gallwch gael manylion cyswllt eich heddlu lleol yn eich llyfr ffôn.



Gweinyddiaeth
CYFIAWNDER

Swyddfa Gartref

Swyddfa'r Twrnai
Cyffredinol

Y System Cyfiawnder Troseddol: gweithio gyda'n gilydd er mwyn y cyhoedd

Cyhoeddwyd gan y Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol ym mis Ebrill 2009.
Cod Cynnyrch: VOC/09/W Cyfeirnod: 291127